Dydd Mercher, 15 Ionawr 2003

**Y BERTHYNAS RHWNG ARIAN EWROPEAIDD A CHYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL**

*[Noder: mae’r papur yma wedi’i baratoi i ddarparu gwybodaeth ffeithiol i ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol gynlluniau amaeth-amgylcheddol]*

1. Roedd Rheoliad 1257/1999 y Cyngor (y Rheoliad Datblygu Gwledig) yn cyfuno naw o Reoliadau blaenorol a oedd yn gysylltiedig â chefnogaeth i amaethyddiaeth a datblygu gwledig ehangach ac yn cyflwyno system o gefnogaeth gydlynol i'r "mesurau cysylltiedig" - sy'n ymwneud â choedwigaeth, mesurau amaeth-amgylcheddol, cefnogaeth i ardaloedd llai ffafriol ac ymddeoliad cynnar - a "mesurau di-gysysylltiad" (buddsoddi mewn daliadau, grantiau prosesu a marchnata, hyfforddiant, cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid ifanc, datblygu gwledig ehangach a mesurau coedwigaeth eraill). Gwahoddwyd Aelod Wladwriaethau i baratoi Cynlluniau Datblygu Gwledig, a oedd yn y lle cyntaf i gynnwys y cyfnod 2000 i 2006. Roedd yn ofynnol iddynt gynnwys mesurau amaeth-amgylcheddol, ond gellid cynnwys unrhyw un o'r mesurau eraill. Roedd y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru yn cynnwys dau fesur amaeth-amgylcheddol (Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig) ynghyd â mesurau sy'n berthnasol i goedwigaeth, ardaloedd llai ffafriol (cynllun Tir Mynydd), buddsoddi mewn daliadau, prosesu a marchnata, hyfforddi, datblygu gwledig ehangach a mesurau coedwigaeth eraill.

2. Mae'r Rheoliadau yn manylu ar lefel y gefnogaeth Ewropeaidd i fesurau a weithredir dan Gynlluniau Datblygu Gwledig Aelod Wladwriaethau, neu rannau ohonynt. Derbyniodd y DU 3.5 y cant o'r arian a oedd ar gael - er gwaethaf y ffaith fod gan y DU 12 y cant o'r tir amaethyddol o fewn yr UE - yn bennaf oherwydd bod dyraniadau'r Aelod Wladwriaethau'n cael eu pennu gan batrymau hanesyddol o wario ar fesurau datblygu gwledig yn hytrach na chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwario o'r fath. O ganlyniad, mae cyfran Cymru o adnoddau datblygu gwledig yr UE ar gyfer y cyfnod o 2000 i 2006 yn 149.57 miliwn ewro (tua £90m dros saith mlynedd). Oherwydd ei bod mor anodd cyflawni polisïau'r Cynulliad ar gyfer ardaloedd gwledig gyda'r dyraniad cyfyngedig hwn, mae'r Cynulliad wedi neilltuo tua £280 miliwn o'i adnoddau ei hun i fesurau'r Cynllun Datblygu Gwledig, a hefyd wedi dewis dechrau modiwleiddio taliadau cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr, sydd (gydag arian cyfatebol punt am bunt gan y Canghellor) yn rhoi £80 miliwn ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun. Felly y cyfanswm sydd ar gael i'w wario ar y Cynllun Datblygu Gwledig yw £450 miliwn dros saith mlynedd.

3. Mae Rheoliad 1257/1999 yn darparu bod gwariant ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael ei gyd-ariannu gan yr UE ar gyfradd o 50 y cant yn gyffredinol, a 75 y cant mewn ardaloedd Amcan 1. Gallai hyn olygu y byddai'r UE yn rhoi arian cyfatebol, punt am bunt mewn ardaloedd nad ydynt yn Amcan 1, a thair gwaith cyfradd ariannu'r Cynulliad yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, beth bynnag fo darpariaeth y Cynulliad ar gyfer cynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr arian Ewropeaidd

ar gyfer holl fesurau'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei bennu, fel a nodwyd uchod, yn 149.57 miliwn ewro dros saith mlynedd - sy'n cyfateb â dim ond £13 miliwn y flwyddyn ac felly'n yn amlwg yn anaddas i ganiatáu ariannu cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar y cyfraddau hyn o gyd-ariannu. Caiff yr ariannu Ewropeaidd ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol ei lesteirio ymhellach gan ofyniad y Comisiwn Ewropeaidd, a ddaeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau ar y Cynllun Datblygu Gwledig, y dylid cynnal cyd-ariannu cymorth ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol mor agos â phosib at y gyfradd isaf a argymhellir sef 25 y cant; felly mae 59.95 miliwn ewro wedi ei ddyranu i gynllun Tir Mynydd. Hefyd, mae angen cyd-ariannu cytundebau parhaus dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n bodoli eisoes (fel y cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif) o'r dyraniad cyffredinol. Golyga hyn 35.15 miliwn ewro arall, sy'n gadael dim ond 54.47 miliwn ewro o gyd-ariannu'r UE i'w ddyranu ymysg yr holl fesurau eraill.

4. Dyma'r effaith ar ariannu amaeth-amgylcheddol (ar gyfer Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig gyda'i gilydd):

| **Ffynhonnell ariannu** | **Dyraniad (miliwn ewro)** |
|---|---:|
| Cyd-ariannu'r UE | 35.88 |
| Ariannu cyfatebol y Cynulliad am ddyraniad yr UE* | 21.52 |
| Cronfeydd ychwanegol y Cynulliad ("ychwanegiad cenedlaethol") | 81.22 |
| Derbyniadau modiwleiddio | 57.35 |
| Arian cyfatebol am dderbyniadau modiwleiddio | 57.35 |
| Cyfanswm | 253.32 |

** i gyfateb ag ariannu'r UE o 75% yn ardaloedd Amcan 1 a 50% mewn mannau eraill*

5. Mae'r tabl yn dangos mai'r unig ffordd o gynnal Cynlluniau Tir Gofal a Ffermio Organig ar y lefel bresennol a'r lefelau a ragamcanir yw trwy i'r Cynulliad gyfrannu adnoddau ychwanegol sylweddol sy'n llawer mwy na'r hyn a fyddai ei angen i gyfateb â'r cyfraniad Ewropeaidd. Felly caiff cyfran sylweddol o'r rhai hynny sy'n derbyn arian gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru eu hariannu gan adnoddau'r Cynulliad yn gyfan-gwbl oherwydd nad yw yr arian Ewropeaidd yn ddigonol i gyfrannu at y rhaglenni a sefydlwyd gan y Cynulliad ar y cyfraddau a ragwelir yn y Rheoliadau.

**Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**
**Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Ionawr 2003**